

## **Datganiad Trawsbleidiol ar Ddarlledu yng Nghymru**

Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl i'r BBC lynu wrth y datganiadau cyhoeddus a wnaed yn ddiweddar gan y Gorfforaeth ei hun pryd y dywedodd y byddai'r cytundeb rhwng y sefydliad a Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yr wythnos hon yn niwtral o ran ei oblygiadau ariannol i'r BBC ac na fyddai'n effeithio ar wasanaethau. Nodwn y sicrwydd a roddwyd gan reolwyr y Gorfforaeth na fydd unrhyw oblygiadau ariannol i'r cytundeb ac na fydd felly yn effeithio ar gyllidebau BBC Cymru na S4C.

Rydym, fodd bynnag, yn pryderu'n ddirfawr na fu ymgynghori â Llywodraeth Cymru na Chynulliad Cymru cyn gwneud penderfyniad o'r fath ynghylch y cytundeb. Mae hyn yn annemocrataidd ac mae'n frawychus meddwl bod Llywodraeth y DU a'r BBC wedi gwneud penderfyniadau yn ddirgel ac y tu hwnt i'r broses ar gyfer adnewyddu Siatr y BBC.

Yn ogystal â hynny, cyhoeddodd y BBC yr wythnos diwethaf y byddai'n rhoi ar waith raglen o doriadau i swyddi o ganlyniad i ddiffyg o £150m yng nghyllid y Gorfforaeth y flwyddyn nesaf. Bu toriadau sylweddol eisoes yng nghyllid BBC Cymru Wales yn ystod y blynyddoedd diweddar – toriadau sy'n cyfateb i 32% mewn termau real ers adnewyddu'r Siatr yn 2007. Mae'n siomedig mai dim ond awr yr wythnos o raglenni Saesneg, wedi eu cynhyrchu yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, y gall BBC Cymru Wales ei chynnig ar wahân i newyddion a chwaraeon. Bydd unrhyw doriadau yn awr i'r cyllid yn cyfyngu ymhellach ar allu BBC Cymru Wales i ateb anghenion ei wylwyr a'i wrandawyr.

Mae S4C yn cael ei hariannu ar hyn o bryd bron yn gyfan gwbl trwy'r BBC ac felly bydd unrhyw doriadau yn cael effaith hefyd ar y sianel Gymraeg ac ar lwyddiant parhaus y Gymraeg ei hun. Mae cyllid S4C eisoes wedi gostwng 36% mewn termau real ers 2010. Mae dyfodol darlledu yng Nghymru bellach mewn perygl enbyd ac mae hynny, yn ei dro, yn berygl difrifol i iaith ac economi Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn disgwyl cymryd rhan lawn yn y trafodaethau ar Siarter Frenhinol newydd y BBC. Bydd y cytundeb newydd yn bwysig yng nghyd-destun cyllido BBC Cymru Wales ac S4C yn y dyfodol.

Gorffennaf  
2015